**Telerau ac Amodau Cystadleuaeth Arolwg Cyrchfannau 2024**

Trefnir y gystadleuaeth hon gan Ymwelwch â Sir Fynwy, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA, i helpu i lywio'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau newydd ar gyfer Sir Fynwy.

**Sut i ymgeisio**

1. Mae'r gystadleuaeth yn rhad ac am ddim ac nid oes angen prynu, ond mae cwblhau'r holiadur arolwg a darparu cyfeiriad e-bost dilys yn ofynion i'w cynnwys yn y gystadleuaeth.

2. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a nodwyd yn cael eu derbyn.

3. Ni fydd Cyngor Sir Fynwy yn derbyn cyfrifoldeb am geisiadau sy'n cael eu colli, eu camosod, eu difrodi neu eu gohirio wrth eu cludo, waeth beth fo'r achos, gan gynnwys er enghraifft, o ganlyniad i unrhyw fethiant offer, camweithio technegol, methiant systemau, lloeren, rhwydwaith, gweinydd, caledwedd cyfrifiadurol neu fethiant meddalwedd o unrhyw fath.

4. Trwy ymgeisio, rydych yn cytuno i gael eich rhwymo gan y Telerau ac Amodau hyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â tourism@monmouthshire.gov.uk.

5. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl i wrthod mynediad, neu wrthod dyfarnu'r wobr i unrhyw un sy'n torri'r telerau ac amodau hyn.

**Cymhwysedd**

6. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bawb sy'n 18 oed neu'n hŷn, ac eithrio aelodau o staff Ymwelwch â Sir Fynwy, eu teuluoedd, asiantau neu unrhyw drydydd parti sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweinyddu'r gystadleuaeth.

7. Ni dderbynnir ceisiadau o unrhyw un dan 18 oed.

8. Caniateir dim ond un cais fesul person.

9. Wrth gymryd rhan, rydych yn cadarnhau eich bod yn gymwys i wneud hynny ac yn gymwys i hawlio unrhyw wobr y gallech ei hennill. Efallai y bydd Cyngor Sir Fynwy yn gofyn i chi ddarparu prawf eich bod yn gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

10. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw pob hawl i'ch gwahardd os yw eich ymddygiad yn groes i ysbryd neu fwriad y gystadleuaeth.

**Y Gystadleuaeth**

11. Dewisir enillydd drwy dynnu enw ar hap, drwy broses gyfrifiadurol o fewn mis i ddiwedd y gystadleuaeth.

12. Bydd yr enillydd yn cael ei hysbysu dros e-bost (gan ddefnyddio'r manylion a ddarparwyd yn y cais) gan rywun o Ymwelwch â Sir Fynwy o fewn 14 diwrnod o'r dewis enw. Os na fydd enillydd yn ymateb i'r e-bost hwn o fewn 21 diwrnod o gael ei hysbysu, yna bydd gwobr yr enillydd yn cael ei fforffedu a bydd gan Gyngor Sir Fynwy'r hawl i ddewis enillydd arall yn unol â'r broses a ddisgrifir uchod.

13. Bydd angen i'r enillydd ddarparu cyfeiriad er mwyn i'r daleb gael ei hanfon atynt.

14. Rhaid defnyddio'r daleb mewn un trafodiad, ac ni ellir ei defnyddio dros sawl ymweliad

15. Nid yw'r wobr yn gyfnewidiol, nid yw'n drosglwyddadwy ac ni chynigir dewis arall o arian parod. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl i ddisodli'r wobr gyda gwobr amgen o werth cyfartal neu uwch, os yw amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Cyngor Sir Fynwy yn ei gwneud yn angenrheidiol i wneud hynny.

16. Mae penderfyniad Cyngor Sir Fynwy ynghylch unrhyw agwedd o'r gystadleuaeth yn derfynol ac yn rhwymol ac ni fydd unrhyw ohebiaeth yn cael ei gwneud yn ei chylch.

17. Gellir cael enw a sir yr enillydd trwy anfon e-bost at tourism@monmouthshire.gov.uk o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad cau'r gystadleuaeth.

18. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl i ddiddymu, canslo, atal, neu ddiwygio'r hyrwyddiad lle bo angen gwneud hynny.

**Cyfyngu ar Atebolrwydd**

19. I'r graddau y caniateir gan y gyfraith, ni fydd Cyngor Sir Fynwy na'i gynrychiolwyr neu ddosbarthwyr mewn unrhyw amgylchiadau yn gyfrifol nac yn atebol i ddigolledu'r enillydd na derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, anaf personol neu farwolaeth sy'n digwydd o ganlyniad i dderbyn y wobr, ac eithrio pan gaiff ei hachosi gan esgeulustod Cyngor Sir Fynwy, ei gynrychiolwyr neu ei ddosbarthwyr neu ei weithwyr. Nid yw eich hawliau statudol yn cael eu heffeithio.

**Diogelu data a chyhoeddusrwydd**

20. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd a dim ond yn unol â'r Telerau ac Amodau hyn a'r Polisi Preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan y bydd yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. https://cy.visitmonmouthshire.com/gwybodaeth/visit-monmouthshire-privacy-policy?policyID=VMPPW1

21. Drwy gystadlu, rydych yn cytuno y gall unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych gyda'ch cais gael ei chadw a'i defnyddio gan Gyngor Sir Fynwy neu ei gynrychiolwyr a'i gyflenwyr i weinyddu'r gystadleuaeth.

**Cyfraith lywodraethol**

22. Mae'r gystadleuaeth hon yn cael ei llywodraethu gan gyfraith Lloegr (fel y mae'n berthnasol yng Nghymru) ac mae ymgeiswyr i'r gystadleuaeth yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru.

23. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r Telerau ac Amodau hyn o bryd i'w gilydd a bydd unrhyw fersiwn wedi'i diweddaru ar waith cyn gynted ag y caiff ei gyhoeddi ar y wefan.